Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
23/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
17/07/2017

# Arolwg Cenedlaethol Cymru

## Crynodeb o adborth defnyddwyr: Drafft o'r Datganiad Cyntaf ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2016-17

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-9389-6

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Lisa Walters
Tîm Arolwg Cenedlaethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 6685
E-bost: lisa.walters@llyw.cymru

# Tabl cynnwys


Crynodeb Gweithredol .......... 2

1. Cefndir .......... 3

   1.1 Cyflwyniad .......... 3

   1.2 Adborth blaenorol gan ddefnyddwyr: opsiynau ar gyfer allbynnau Arolwg Cenedlaethol 2016-17 .......... 3

2. Adborth defnyddwyr am ffug ddatganiad cyntaf Arolwg Cenedlaethol 2016-17 .......... 4

3. Adborth a ddaeth i law .......... 5

   3.1 Bwletin Byr .......... 5

   3.1.1 Barn gyffredinol am y bwletin byr .......... 6

   3.1.2 Awgrymiadau am welliannau .......... 8

   *Cysyniadau* .......... 9

   *Dadansoddi'r prif ganlyniadau* .......... 9

   *Fformatio* .......... 9

   *Testun* .......... 9

   *Ffeithluniau* .......... 10

   *Siartiau* .......... 10

   *Hygyrchedd* .......... 11

   3.2 Sleidiau o brif ganlyniadau .......... 12

   3.2.1 Barn gyffredinol am y sleidiau o brif ganlyniadau .......... 13

   3.2.2 Awgrymiadau am welliannau .......... 14

   3.3 Tablau a siartiau Excel o'r prif ganlyniadau .......... 15

   3.3.1 Barn gyffredinol am dablau a siartiau o'r prif ganlyniadau .......... 17

   3.3.2 Awgrymiadau am welliannau .......... 18

   *Tab 'Chwilio am gwestiynau'* .......... 19

   *Tab 'Canlyniadau'* .......... 20

   *Tab 'Gwybodaeth dechnegol'* .......... 21

   *Tab 'Data'* .......... 21

4. Casgliadau a'r camau nesaf .......... 22

ATODIAD: Canllaw ar gyfer y cyfweliadau manwl i brofi deunyddiau ffug Datganiad Cyntaf Arolwg Cenedlaethol 2016-17 *(Saesneg yn unig)* .......... 23

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn astudiaeth bwysig sy'n casglu gwybodaeth am farn a lles pobl. Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddir canlyniadau cyntaf yr Arolwg Cenedlaethol newydd (yn lle'r Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, Arolwg ar Oedolion Egnïol a'r Arolwg Cenedlaethol blaenorol).
- Casglwyd adborth cychwynnol gan ddefnyddwyr yn ystod hydref 2016. Yna ym mis Chwefror 2017 bu tîm yr Arolwg Cenedlaethol yn profi'r deunydd drafft (bwletin byr, sleidiau o'r prif ganlyniadau a thablau/siartiau o'r prif ganlyniadau), gan ddefnyddio data ffug, ar gyfer datganiad cyntaf yr Arolwg Cenedlaethol newydd. Edrychwyd hefyd ar ffyrdd o sicrhau bod y canlyniadau mor ddefnyddiol â phosib. Wrth brofi, cynhaliwyd cyfweliadau manwl gyda deg o ddefnyddwyr mewnol ac allanol yr arolwg.

## Adborth a ddaeth i law

- Cafwyd adborth cadarnhaol iawn i'r **bwletin byr** gan y defnyddwyr a gafodd eu cyfweld. Roeddent yn croesawu'r dull newydd o gyflwyno canlyniadau drwy ddefnyddio cymysgedd o destun, siartiau a ffeithluniau. Gwelwyd ei bod yn ddogfen glir, ddiddorol a hawdd ei deall, a'i bod yn well na datganiad cyntaf 2014-15 (a oedd yn hirach, a llai graffigol). Yn gyffredinol, roedd y defnyddwyr yn teimlo mai dyma'r ffordd orau o ddosbarthu'r datganiad cyntaf.
- Roedd y defnyddwyr yn gweld y **sleidiau o'r prif ganlyniadau** fel rhywbeth llai hanfodol; dywedwyd mai eu prif bwrpas yn eu barn nhw oedd fel ffynhonnell ar gyfer cyflwyniadau'r defnyddwyr eu hunain. Awgrymodd y defnyddwyr y byddai'r sleidiau yn fwy defnyddiol wrth 'ddweud stori' ar gyfer maes pwnc penodol, yn hytrach na chwmpasu amrywiaeth eang o bynciau.
- Cyflwynwyd y **tablau a siartiau o'r prif ganlyniadau** mewn taenlen Excel rhyngweithiol. Roedd yr ymatebwyr yn hoffi'r syniad o chwilio am bynciau / cwestiynau o ddiddordeb personol iddynt, gan gael data mewn tablau neu siartiau, a medru edrych yn fanylach ar y canlyniadau yn ôl prif newidynnau gan ddibynnu ar eu hanghenion penodol. Awgrymodd y defnyddwyr amrywiol ffyrdd o wneud y ddogfen Excel yn haws ei defnyddio, ond y teimlad cyffredinol oedd ei bod yn cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd hwylus i'r defnyddiwr a'i bod yn fwy defnyddiol a rhyngweithiol na thablau/siartiau eraill a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ar bynciau eraill.

## Y Camau Nesaf

- Ar sail yr adborth a ddaeth i law drwy'r cyfweliadau manwl, dros y misoedd nesaf bydd tîm yr Arolwg Cenedlaethol yn cynhyrchu'r fersiynau terfynol o'r allbynnau hyn yn barod i'w cyhoeddi ym mis Mehefin 2017.

# 1. Cefndir

## 1.1 Cyflwyniad

Lluniwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru i ddarparu gwybodaeth gynrychioladol, ddibynadwy a chyfredol am farn, ymddygiad ac amgylchiadau pobl, yn genedlaethol ac ar lefel awdurdod lleol. Mae'r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau. Defnyddir yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu i ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

O 2016-17 ymlaen, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn disodli'r hen Arolwg Cenedlaethol, Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru a'r Arolwg Oedolion Egnïol. Mae'r arolwg newydd yn edrych ar hapsampl o tua 12,000 o bobl o bob cwr o Gymru bob blwyddyn, ac yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yng nghartrefi pobl. Bydd yn parhau i ddarparu'r wybodaeth o ansawdd uchel sydd ei hangen ar ddefnyddwyr yr arolwg, ond mewn ffordd fwy costeffeithiol o gymharu â pharhau gyda'r arolygon blaenorol.

Ym mis Mehefin 2017, byddwn yn cyhoeddi canlyniadau cyntaf yr Arolwg Cenedlaethol newydd. Rydym wedi bod yn edrych ar nifer o ffyrdd o gyfathrebu'r canlyniadau, ac wedi casglu adborth gan ein defnyddwyr ynghylch pa allbynnau fyddai orau i ddiwallu eu hanghenion, a sut i wella'r drafftiau o'r allbynnau, drwy arolwg ar-lein a chyfweliadau manwl.

## 1.2 Adborth blaenorol gan ddefnyddwyr: opsiynau ar gyfer allbynnau Arolwg Cenedlaethol 2016-17

Yn ystod hydref 2016, cynhaliwyd arolwg ar-lein i gasglu adborth gan ddefnyddwyr ein harolwg am nifer o ffyrdd posib o gyfathrebu'r canlyniadau. Anfonwyd yr arolwg at 650 o ddefnyddwyr, a daeth 124 o ymatebion i law gan amrywiol ddefnyddwyr. Cyhoeddwyd adroddiad cryno o'r prif ganfyddiadau ym mis Ionawr 2017.

O'r arolwg ar-lein, roedd yn glir mai'r datganiadau byr a'r sleidiau o'r prif ganlyniadau oedd yr opsiynau oedd yn cael eu ffafrio ar gyfer datganiad cyntaf Arolwg Cenedlaethol 2016-17. Yn gyffredinol, roedd y rhai a ymatebodd yn credu mai dyma'r ffyrdd gorau o gyfathrebu canlyniadau yn glir ac yn syml. Dywedwyd hefyd y byddai eu fformat a'u hyd yn

caniatáu i bobl ddeall y prif ganfyddiadau'n gynt. Ar yr un pryd, gwelwyd y gellid cyfuno amrywiol opsiynau dosbarthu er mwyn diwallu anghenion y defnyddwyr yn well.

O ran adrodd yn fwy cyffredinol (gan gynnwys ar ôl y datganiad cyntaf), roedd mwy o ddiddordeb gan y defnyddwyr yn y prif ganlyniadau cyffredinol: bwletinau byr neu sleidiau o'r canlyniadau. Roedd hyn yn arbennig o wir o safbwynt y rhai sy'n gwneud polisïau. Roedd dadansoddiad manwl a data rhyngweithiol yn bwysicach i'r dadansoddwyr, ac roedd cyflwyniadau diddorol yn bwysig i'r defnyddwyr annhechnegol. Roedd tablau Excel o'r canlyniadau yn ddefnyddiol i ddadansoddwyr a'r rhai sy'n gwneud polisïau.

## 2. Adborth defnyddwyr am ffug ddatganiad cyntaf Arolwg Cenedlaethol 2016-17

Ar sail yr adborth a ddaeth i law, yn gynnar yn 2017 rhoddodd tîm yr Arolwg Cenedlaethol flaenoriaeth i'r opsiynau dosbarthu ar gyfer datganiad cyntaf Arolwg Cenedlaethol 2016-17, ac fe baratowyd ffug fersiynau o'r cyhoeddiadau canlynol gan ddefnyddio data ffug:

- Bwletin byr;
- Sleidiau o brif ganlyniadau;
- Tablau / siartiau Excel o'r prif ganlyniadau.

Ym mis Chwefror 2017, cynhaliwyd deg cyfweliad manwl gyda defnyddwyr mewnol ac allanol yr arolwg er mwyn casglu adborth ynghylch y deunydd drafft hwn ar gyfer datganiad cyntaf yr Arolwg Cenedlaethol newydd ac i edrych ar ffyrdd o wneud yr allbynnau mor ddefnyddiol â phosib. Dewiswyd cyfranogwyr yr astudiaeth ddilynol hon o'n rhestr o ddefnyddwyr yr arolwg a'r rhestr o bobl a gytunodd i ni gysylltu â nhw eto wrth lenwi'r arolwg ar-lein yn hydref 2016. Allan o'r deg a gafodd eu cyfweld:

- Roedd chwech yn defnyddio'r arolwg o fewn Llywodraeth Cymru mewn amrywiol feysydd polisi (Ardal Leol, Gofal Plant/Addysg, y Rhyngrwyd, y Gymraeg, Amddifadedd Sylweddol/Tlodi, Chwaraeon) ac o wahanol gefndir polisi/ymchwil/cyfathrebu;
- Roedd pedwar yn defnyddio'r arolwg o fewn sefydliadau eraill (Uned Ddata Llywodraeth Leol, sefydliad iechyd, a dau awdurdod lleol); eto, roedd rhain o wahanol gefndiroedd polisi/ymchwil/cyfathrebu.

Roedd pob cyfweliad tua 45 munud o hyd ac yn cynnwys cwestiynau agored i annog trafodaeth am yr opsiynau cyhoeddi a gyflwynwyd (*gweler yr Atodiad*).

# 3. Adborth a ddaeth i law


Mae'r adran hon yn cynnwys yr adborth a ddaeth i law ar yr allbynnau drafft gan y deg defnyddiwr.

## 3.1 Bwletin Byr

Roedd y bwletin byr a gyflwynwyd i'r ymatebwyr fel a ganlyn:

- 12 tudalen o hyd;
- edrych ar y prif ganlyniadau mewn 12 o bynciau (rhwng hanner tudalen a thudalen ar gyfer pob pwnc) gan ddefnyddio testun, siartiau a ffeithluniau;
- rhoi sylw bras i'r cyd-destun polisi;
- darparu gwybodaeth bwysig a dolenni perthnasol (er enghraifft at dudalennau'r Arolwg Cenedlaethol ar y we, dogfennau cyd-destun / cefndir, adroddiadau technegol).

Ceir enghreifftiau isod o'r adrannau o'r bwletin byr y gofynnwyd i'r ymatebwyr edrych arnynt



ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

Statistical First Release

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, Ebrill 2016 - Mawrth 2017**

6 Mehefin 2017
SFR XXX/2017

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg sy'n cael ei gynnal wyneb yn wyneb gyda thua 10,000 o oedolion 16 oed a throsodd, a ddewiswyd ar hap, o bob cwr o Gymru. Mae'r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar bobl a'u hardal leol. Bydd rhai canlyniadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Detholiad yn unig o'r canlyniadau sydd yn y datganiad hwn. Bydd canlyniadau manylach yn cael eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn.

**Yn y datganiad hwn**

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys canlyniadau'r pynciau canlynol:

- Boddhad â gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg
- Synnwyr o berthyn i'r ardal leol
- Gwirfoddoli
- Tlodi
- Llesiant ac unigrwydd
- Iechyd personol
- Cyfranogaeth mewn chwaraeon
- Diwylliant
- Mynediad at y rhyngrwyd
- Y Gymraeg
- Gofal plant
- Yr Amgylchedd

Ceir gwybodaeth ynghylch y rhesymau dros gynnwys bob pwnc yn yr arolwg ar ein gwefan.

I gyd-fynd â'r datganiad hwn, cynhyrchwyd taenlen Excel sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio am ganlyniadau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae data'r Arolwg Cenedlaethol, a ddefnyddir fel dangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gael fel data agored ar StatsCymru.

**Y datganiad hwn**

Mae'r datganiad hwn yn rhoi prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17.

Dechreuodd yr Arolwg ar ei ffurf wreiddiol yn 2012. O 2016-17 ymlaen cafodd ei ehangu i ymgorffori Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru a'r Arolwg Oedolion Egnïol.

Gellir gweld yr holiadur llawn ar dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol.

Ceir manylion cyhoeddiadau sydd i ddod yn: http://gov.wales/statistics-and-research.

Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, y pynciau dan sylw a'r diffiniadau yn yr adran Gwybodaeth Allweddol

Ystadegydd: Lisa Walters 029 2082 6685 surveys@wales.gsi.gov.uk Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg
Ymholiadau'r wasg: 029 2089 8099 Ymholiadau'r cyhoedd : 029 2082 5050 Twitter: @YstadegauCymru

Pam ein bod yn gofyn y cwestiynau hyn

**Boddhad â'r gwasanaethau cyhoeddus**

Gofynnwyd i bobl roi eu barn am wasanaethau iechyd a'r system addysg ar raddfa rhwng 0 (gwael iawn) a 10 (da iawn). Hefyd gofynnwyd iddynt am eu barn am waith Llywodraeth Cymru, ar raddfa rhwng 0 (anfodlon iawn) a 10 (bodlon iawn). Y sgôr cyfartalog a roddwyd allan o 10 oedd:

6.0 ar gyfer iechyd, 6.0 ar gyfer addysg, a 5.0 ar gyfer Llywodraeth Cymru

Gofynnwyd y cwestiynau hyn yn yr arolwg ers 2012-13, ac nid yw'r sgoriau yn wahanol iawn i rai'r blynyddoedd blaenorol. Roedd y sgoriau cyfartalog ar gyfer y tri gwasanaeth cyhoeddus yn is ymysg bobl 45 - 64 oed ac yn uwch ymysg pobl ifanc a phobl hŷn.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi cael profiad o ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn ddiweddar pa mor fodlon oedden nhw â'r gwasanaethau hynny.

Dywedodd 85% eu bod yn fodlon â'r gofal a dderbyniwyd gan eu Meddyg Teulu

Roedd 89% yn fodlon â'r gofal a dderbyniwyd yn yr apwyntiad diwethaf mewn ysbyty'r GIG

Roedd 87% yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a gafwyd gan y gwasanaeth ambiwlans brys


Fel y gwelwyd yn flaenorol gyda'r Arolwg Cenedlaethol[1], mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon â'r gwasanaethau hyn.

Roedd pobl a oedd wedi defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol yn llai bodlon.
60% oedd yn dweud bod y gwasanaeth naill ai'n ardderchog neu'n dda.
Mae hyn yn debyg i ganlyniadau 2014-15.[2]

Roedd 80% o'r rhieni yn fodlon gydag ysgol gynradd eu plant ac 80% yn fodlon gydag ysgol uwchradd eu plant.

[1] Yn 2014-15, roedd 91% yn fodlon â'r gofal a dderbyniwyd gan eu Meddyg Teulu, 92% yn fodlon â'u hapwyntiad ysbyty'r GIG, a 90% yn fodlon â'r gwasanaeth ambiwlans.
[2] Yn 2014-15, roedd 71% yn dweud bod eu gofalwyr yn ardderchog neu'n dda.

2



**Cyfranogi mewn chwaraeon**

Roedd Chwaraeon Cymru wedi comisiynu Arolwg Oedolion Egnïol er mwyn monitro cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon yng Nghymru. Fe gafodd cwestiynau'r arolwg hwnnw eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'n bosib bod y newid yn y ffordd y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu wedi arwain at newid yn y ffordd y mae pobl wedi ymateb i'r arolwg, felly dylid cymryd gofal cyn adrodd ar unrhyw newidiadau yn y canlyniadau chwaraeon dros gyfnod o amser.

Y gweithgaredd mwyaf cyffredin o bell oedd cerdded dros 2 filltir, gyda 40% o'r rhai a ymatebodd yn dweud iddynt wneud hynny dros y 4 wythnos ddiwethaf.[12] Ac eithrio 'cerdded', roedd 50% o'r rhai a ymatebodd wedi cymryd rhan mewn rhywfath o weithgaredd o leiaf dros y 4 wythnos ddiwethaf. Gellir gweld y gweithgareddau eraill mwyaf cyffredin yn siart 8.

**Siart 8: Y ganran sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau chwaraeon mwyaf cyffredin**

Gym or fitness classes 16%
Swimming (indoor) 15%
Jogging 13%
Cycling 12%
Football (outdoor) 11%
Golf (Inc. pitch and putt) 7%
Pool 7%
Rambling / hill & fell walking 6%
Road running / cross country 6%
Swimming (outdoor) 6%
Dance 5%
Bowling (tenpin) 4%
0% 5% 10% 15% 20%

* Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa fath o ddosbarthiadau ffitrwydd neu yn y gampfa yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt. Dywedodd 9% eu bod yn hyfforddi gyda phwysau, 8% beic / peiriant ymarfer, 8% gweithgareddau tynhau'r corff a 5% cadw'n heini / ymarferion dawns / aerobeg.

Roedd 35% ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon o leiaf tair gwaith yr wythnos[13].

[12] Dywedodd yr Arolwg Oedolion Egnïol bod xx% o'r bobl wedi cerdded mwy na 2 filltir a XX% o'r rhai a ymatebodd wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd o leiaf, ac eithrio 'cerdded'. Mae hyn yn weddol debyg i ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol.
[13] Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Dangosydd Cenedlaethol 38

8

**Diwylliant**

Roedd yr arolwg yn gofyn i bobl am ddigwyddiadau celfyddydol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a mannau hanesyddol yng Nghymru.

Roedd 30% wedi ymweld â llyfrgell yng Nghymru o leiaf unwaith y flwyddyn; o'r rheiny, roedd 95% yn fodlon â'r profiad

55% wedi bod mewn digwyddiad celfyddydol yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf, a 25% wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd celfyddydol yn y 12 mis diwethaf

50% wedi ymweld â safle hanesyddol yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf; o'r rheiny, roedd 95% yn fodlon â'r profiad

35% wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf; o'r rheiny, roedd 95% yn fodlon â'r profiad

Yn y 12 mis diwethaf, roedd 40% heb fod i ddigwyddiad celfyddydol, 40% heb ymweld â man hanesyddol, a 60% heb fod i amgueddfa. 'Diffyg diddordeb' oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros beidio ymweld â digwyddiad celfyddydol, man hanesyddol neu amgueddfa yn y 12 mis diwethaf, yn cael ei ddilyn gan 'Mae'n anodd cael amser' a 'Wnaeth hynny ddim croesi fy meddwl'.

**Mynediad at y rhyngrwyd**

Canfu Arolwg Cenedlaethol 2016-17 fod 83% o'r aelwydydd â mynediad at y rhyngrwyd yn y cartref, cynnydd cyson ers 2004 fel y gwelir yn Siart 9 isod.

**Siart 9: Defnydd personol o'r rhyngrwyd, 2012-2017**

100% 90% 80% 70% 60% 50% 40% 30% 20% 10% 0%
Living in Wales Survey
National Survey for Wales
2004 2005 2006 2007 2008 2009-10 pilot 2012-13 2013-14 2014-15 2015-16 2016-17

Mae defnydd personol o'r rhyngrwyd yn y cartref, y gwaith neu mewn man arall wedi cynyddu o 77% yn 2012-13 i 84% yn 2017.

9

## 3.1.1 Barn gyffredinol am y bwletin byr

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn am y bwletin byr gan ddefnyddwyr yr arolwg, a oedd yn croesawu'r ffordd newydd o gyflwyno canlyniadau drwy ddefnyddio cymysgedd o destun, siartiau a ffeithluniau. Roeddent o'r farn bod hynny'n well na hen fwletinau'r Arolwg Cenedlaethol (a oedd yn hirach ac yn llai graffigol). Dywedwyd hefyd y byddent yn fwy tebygol o'i ddefnyddio na'r hen fwletinau. Teimlwyd ei fod yn rhoi golwg gyffredinol dda ar y prif ganlyniadau neu'r pynciau oedd o ddiddordeb iddynt:

- *‘Mae’n symlach nag oedd yn y gorffennol; mae'n darllen yn wahanol i'r hen ddatganiadau cyntaf, roedd rheiny'n llawn testun ac yn gallu bod yn go ddiflas'*
- *'Cymysgedd dda o eiriau a lluniau'*
- *'Mae'n edrych yn dda, mae digon i gadw'ch diddordeb'*
- *'Gall pobl ddarllen penawdau a gweld beth sy'n bwysig iddyn nhw'*
- *'Lefel uchel yn dda, hawdd ei ddeall'*
- *'Dim llawer o destun, sy'n beth da'*

Roedd y rhai a ymatebodd yn meddwl bod y ddogfen yn ddigon syml a hawdd ei deall, bod y cysyniadau wedi cael eu hesbonio mewn iaith glir, bod y prif ganfyddiadau wedi'u hamlygu'n glir a bod digon o wybodaeth i helpu i ddehongli'r canlyniadau. Er bod y themâu yn y bwletin yn weddol gymhleth, teimlwyd iddynt gael eu cyflwyno mewn ffordd syml, ac y byddai hyn yn helpu defnyddwyr i fanteisio ar y canfyddiadau mewn ffordd effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

- *'Clir, syml; mae'r deunydd sy'n cael ei gyflwyno'n gymhleth, ond ddim yn teimlo felly gan fod y prif negeseuon yn glir'*
- *'Pob pwnc yn cael ei gyflwyno'n glir'*
- *'Edrych yn dda, y negeseuon pwysig wedi'u cyflwyno'*
- *'Graffiau syml yn dda'*
- *'Yn sicr yn hawdd ei ddefnyddio'*

O ran cynllun/fformat, roedd defnyddwyr yn teimlo bod y bwletin byr yn ddiddorol, yn drefnus, yn hawdd ei drafod ac wedi'i osod yn dda. Roeddent yn arbennig o hoff o'r defnydd o ffeithluniau, a'r ffordd yr oedd delweddau'n cyfateb i'r pynciau ac yn cael eu defnyddio i gyfeirio at wahanol themâu. Gwerthfawrogwyd hefyd y defnydd o wahanol liw ar gyfer pob pwnc er mwyn gwahaniaethu'n fwy amlwg rhwng yr adrannau.

- *'Dal diddordeb, dim llawer o destun...da iawn!'*
- *'Atyniadol, hawdd ei ddarllen'*
- *'Rwy'n hoffi'r ffeithluniau, deniadol ac yn tynnu sylw'*
- *'Swmpus braf'*
- *'Mwy lliwgar na'r rhai blaenorol - mae hynny'n ddefnyddiol'*
- *'Rwy'n hoffi'r lliwiau llachar - mae hynny'n newydd ar gyfer y canrannau, mae'n haws darllen ar draws yr adrannau'*

Roedd y rhai a ymatebodd yn hapus gyda hyd y ddogfen, nifer yr adrannau a hyd yr adrannau ar y prif bynciau. Er bod gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr fel rheol ddiddordeb mewn pynciau penodol o'r Arolwg Cenedlaethol, dywedwyd y byddent yn debyg iawn o ddarllen y ddogfen gyfan gan ei bod yn gymharol fyr ac yn rhoi golwg gyffredinol dda iawn ar nifer o themâu sy'n perthyn i'w gilydd:

- *'Mae'n bendant yn hawdd ei drafod'*
- *'Gorau po fyrraf, mae'n helpu pobl i ddefnyddio'r canlyniadau'*

Mae dolenni at ddogfennau eraill yn amlwg ac mae'n hawdd dod o hyd i ragor o wybodaeth os oes angen. Gwerthfawrogwyd gweld gwybodaeth bwysig o ran methodoleg ac ansawdd yn cael ei amlinellu yn y ddogfen er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau, a bod gwybodaeth fanylach ar gael os yw'r defnyddwyr am fwrw golwg:

- *'Dolenni defnyddiol at y pynciau'*
- *'Llawer o bethau defnyddiol ar y cefn'*
- *'Cyfeiriadau URL defnyddiol i'w clicio a'u dilyn'*
- *'Dolenni'n syniad da yn lle cael yr holl wybodaeth mewn un ddogfen'*

Yn gyffredinol, ni chafwyd unrhyw sylwadau negyddol gan ddefnyddwyr am y bwletin byr hwn, ac fe gadarnhawyd mai'r opsiwn hwn fyddai'r ffordd fwyaf defnyddiol o ddosbarthu'r wybodaeth iddynt:

- *'Fe fydden i'n sicr yn darllen ac yn defnyddio'r bwletin hwn'*
- *'Dyma'r ddogfen y bydden i'n troi ati gyntaf - hawdd ei deall ac yn darparu'r holl wybodaeth bwysig sydd ei hangen arna i'*

### 3.1.2 Awgrymiadau am welliannau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn medru meddwl am ffyrdd eraill o gyflwyno'r bwletin byr i'w wneud yn fwy defnyddiol, ac a oedd ganddynt unrhyw adborth adeiladol. Roedd y prif sylwadau fel a ganlyn:

***Cyflwyniad***

- Rhoi gwybodaeth am y ffordd y mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cyfrannu at y gwath o gasglu tystiolaeth yn erbyn dangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: adroddwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir ar ddiwedd y bwletin, ond teimlwyd y dylid cyfeirio'n fras at y Ddeddf ar y dudalen flaen hefyd;
- Egluro sut dewiswyd y pynciau ar gyfer datganiad cyntaf yr Arolwg Cenedlaethol ymysg pynciau perthnasol eraill y gellid bod wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn;
- Cynnwys y prif ddolenni at ddogfennau perthnasol eraill ym mhrif destun y dudalen gyflwyno; roedd rhai wedi'u cynnwys ar ochr dde'r dudalen, ond teimlwyd y byddai'n hawdd i'r rheiny fynd ar goll.

### *Cysyniadau*

- Egluro ystyr 'llesiant' gan y gallai hynny gyfeirio at lesiant goddrychol/personol (hynny yw boddhad gyda bywyd, teimlad bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn werth chweil, hapusrwydd, pryder) neu'r cysyniad ehangach o lesiant a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (sef llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru);
- Egluro ystyr 'ardal leol' gan fod ymatebwyr yn ansicr at beth roedd hyn yn cyfeirio.

### *Dadansoddi'r prif ganlyniadau*

- Darparu rhywfaint o fanylion awdurdodau lleol ar gyfer pynciau fel 'Ardal Leol' a 'Tlodi' lle mae'r dimensiwn rhanbarthol/lleol yn arbennig o bwysig;
- Darparu mwy o fanylion am bynciau penodol er mwyn cyflawni prif flaenoriaethau polisi yn well (fel Mynediad at y Rhyngrwyd yn erbyn Defnydd o'r Rhyngrwyd, Tlodi Oedolion yn erbyn Tlodi Plant, Siaradwyr Cymraeg Iau yn erbyn rhai Hŷn);
- Cynnwys mwy o gymariaethau gyda blynyddoedd blaenorol a chyfeirio pan fo data o flynyddoedd blaenorol ar gael;
- Lle bynnag y bo'n bosibl, egluro'r rhesymau pam fod newidiadau yn yr amcangyfrifon wedi digwydd drwy gymharu'r canlyniadau gydag arolygon/ymchwil arall;
- Yn ogystal â'r canrannau, darparu ffigurau gwirioneddol ar gyfer pynciau (fel y Gymraeg, Chwaraeon) y mae angen i ddefnyddwyr gael tystiolaeth amdanynt er mwyn gosod targedau dros amser a/neu cynllunio'r ddarpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau.

### *Fformatio*

- Tynnu sylw at yr holl ganrannau mewn ffont lliw, bras, er mwyn iddynt fod yn amlwg ar gyfer pob pwnc;
- Osgoi defnyddio'r lliw llwyd gan nad yw mor amlwg â'r lliwiau eraill.

### *Testun*

- Darparu swm cyson o drafodaeth ledled y ddogfen gan fod rhai adrannau'n fwy geiriog nag eraill; er enghraifft, mae rhai adrannau'n cynnwys mwy o wybodaeth am newidiadau i'r fethodoleg, ac fe deimlwyd y gellid symud yr ystyriaethau hyn i adran 'Prif wybodaeth' y bwletin;

- Ychwanegu is-adrannau ar gyfer y pynciau hynny (fel Amddifadedd Sylweddol/Tlodi) lle mae cryn dipyn o wybodaeth yn cael ei darparu.


***Ffeithluniau***

- Defnyddio ffeithluniau mewn ffordd fwy dethol: cadw'r rhai mwyaf perthnasol i bob pwnc, lleihau eu maint rhag tynnu sylw'r darllenydd oddi wrth y prif gynnwys, a'u gosod yn gyson drwy gydol y ddogfen;
- Disodli'r ffeithluniau nad yw'r defnyddwyr yn gallu eu cysylltu ar unwaith â'r pynciau gyda rhai mwy ystyrlon neu siartiau/testun ychwanegol.

***Siartiau***


- Osgoi defnyddio llinellau tueddiadau (*gweler enghraifft isod*) gan fod defnyddwyr yn teimlo nad ydynt mor hawdd eu dehongli â mathau eraill o siartiau:

*Siart: Mynediad aelwydydd at y rhyngrwyd, 2004 i 2017*





- Ychwanegu nodiadau at y siartiau bar i egluro pam fod data ar goll ar gyfer cyfnodau penodol (*enghraifft isod):*

*Siart: Y gallu i ymdopi â'r holl filiau ac ymrwymiadau heb anhawster, fesul blwyddyn*



- Defnyddio gwahanol liwiau ar gyfer siartiau sy'n cynnig data ar gyfer gwahanol is-bynciau;er enghraifft, defnyddio gwahanol liwiau ar gyfer adrodd sgoriau iechyd meddwl cyfartalog fesul y pedair elfen llesiant goddrychol yn hytrach nag un lliw unigol ar gyfer ' boddhad â bywyd', 'teimlad bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn werth chweil', 'hapusrwydd ddoe' a 'pryder ddoe', fel y gwelir yn y siart isod:

*Siart: Sgôr iechyd meddwl cyfartalog yn ôl llesiant goddrychol*




***Hygyrchedd***

- Ystyried sut y gellid gwneud y ddogfen yn fwy hygyrch i bobl anabl;
- Egluro cynnwys y dolenni at ddogfennau perthnasol eraill yn nheitl y ddolen (er enghraifft: roedd '*Cliciwch yma i gael cyd-destun'* yn aneglur gan fod 'cyd-destun' yn weddol gyffredinol ac nad yw'n dweud yn glir pa wybodaeth mae disgwyl i'r defnyddwyr ddod o hyd iddi);
- Egluro sut y gallai'r bwletin byr fod ar gael fel fersiwn ar y we / tudalen rhyngweithiol ar y we yn hytrach na dogfen PDF.


## 3.2 Sleidiau o brif ganlyniadau


Roedd y sleidiau o brif ganlyniadau a gyflwynwyd i'r ymatebwyr fel a ganlyn:


- cynnwys 14 sleid;
- edrych ar y prif ganlyniadau mewn 12 pwnc (un sleid ar gyfer pob pwnc) gan ddefnyddio siartiau a ffeithluniau yn bennaf;
- darparu dolenni perthnasol at dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol, bwletin byr y datganiad cyntaf, cwestiynau a thablau data, a manylion cyswllt tîm yr Arolwg Cenedlaethol.

Ceir enghreifftiau isod o'r sleidiau yr oedd gofyn i'r ymatebwyr edrych arnynt:



### 3.2.1 Barn gyffredinol am y sleidiau o brif ganlyniadau

Roedd defnyddwyr yr arolwg a gafodd eu cyfweld yn hoffi arddull y sleidiau ffug a wnaed ar gyfer datganiad cyntaf yr Arolwg Cenedlaethol, ac yn dweud eu bod yn '*syml a deniadol'.* Roeddent yn teimlo eu bod yn dilyn arddull ddifyr debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer y bwletin byr, gan wneud defnydd da o ffeithluniau, siartiau a lliwiau, a bod hyn yn cyfrannu at eu gwneud yn '*ddigon clir, hunan-esboniadol a syml'.* Gwerthfawrogwyd hefyd mai dim ond gwybodaeth allweddol sy'n cael ei darparu er mwyn i ddefnyddwyr fedru cydio yn y prif ganlyniadau, a bod dolenni at ddogfennau eraill yn cael eu darparu ar waelod pob sleid.

Nododd y rhai a ymatebodd nifer o ffyrdd o ddefnyddio'r sleidiau hyn; yn benodol, cyfeiriwyd at y ffordd y gellid eu dosbarthu'n rhwydd i randdeiliaid a chynulleidfaoedd annhechnegol er mwyn rhoi cipolwg cyflym o'r prif ganlyniadau a'u defnyddio mewn cyflwyniadau i ysgogi trafodaeth am y prif faterion/pynciau:

- *'Mae'n ffordd arall o ddod i ddeall yr wybodaeth a thrafod pynciau gyda'r timau'*
- *'Byddaf yn eu dosbarthu i randdeiliaid ac yn gwneud iddynt ofyn y cwestiynau cywir am y data'*
- *'Gallai rhain fod yn ddefnyddiol iawn i drafod materion yn gynt'*
- *'Fe fydda i'n defnyddio'r sleidiau data ar gyfer cynllunio mewnol'*
- *'Mae'n ddefnyddiol ar gyfer rhoi cipolwg cyffredinol'*
- *'Fe fydden i'n eu defnyddio nhw i dynnu sylw at feysydd pwysig'*
- *'Rwy'n credu byddai modd defnyddio'r sleidiau hyn i osod y cyd-destun, ac ychwanegu sleidiau eraill fy hun'*
- *'Byddai'n fwy defnyddiol i gynulleidfaoedd annhechnegol'*

Fodd bynnag, ac eithrio'r defnydd a nodir uchod, nid oedd y rhai a ymatebodd yn deall yn gwbl glir beth oedd diben y sleidiau. Roeddent yn teimlo eu bod yn '*dyblygu*' gwaith y bwletin byr, gan nad oeddent yn rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol. Fe allai rhain hefyd fod yn gamarweiniol, gan nad oes llawer o gyd-destun yn cael ei ddarparu, ac mai dim ond detholiad o'r prif ganlyniadau sydd yma:

- *'Mae'n edrych fel dyblygiad o'r bwletin byr, nad yw'n hollol gywir'*
- *'Dim llawer o wybodaeth na dadansoddiad - gallai pobl gael trafferth deall y prif negeseuon'*

- *'Gallai'r ffeithluniau fod yn gamarweiniol heb y cyd-destun - mae bwletin byr yn fwy dealladwy'*

Ystyriwyd y byddai defnyddwyr yn disgwyl cael mwy o ganlyniadau ar gyfer pynciau fel iechyd ac addysg ac y byddai hyn yn golygu bod y sleidiau yn '*fwy prysur'* ac yn *'llai atyniadol'.* Dywedwyd hefyd y byddai'n beryglus eu cyhoeddi ar dudalennau'r Arolwg Cenedlaethol ar y we gan y gallai'r defnyddwyr gael eu temtio i edrych arnynt heb ddarllen y bwletin byr hefyd, gan golli'r prif negeseuon o ganlyniad:

- *'Byddai pobl yn disgwyl mwy o'r prif ganfyddiadau, gan eu bod i'w gweld yn y bwletin byr'*
- *'Mae'n llythrennol yn grynodeb o'r bwletin byr, ond byddai'n gwbl annigonol pe na bai'r bwletin byr ar gael hefyd'*
- *'Y perygl yw y byddai'r sleidiau'n cael eu defnyddio i gael yr holl wybodaeth, a gallai hynny fod yn gamarweiniol'*

Er bod cael dewis o'r prif ganlyniadau i'w defnyddio mewn cyflwyniadau'n cael ei ystyried fel defnydd da o'r sleidiau hyn, roedd disgwyliad y dylent '*adrodd stori*' ar gyfer pob pwnc. Dadleuwyd bod y 'straeon' ar goll ar hyn o bryd, a bod y adroddiadau'r pynciau ar wahân, heb eu cysylltu â'i gilydd mewn unrhyw ffordd ystyrlon:

- *'Dim mwy na detholiad o'r bwletin byr'*
- *'Dylai'r sleidiau gynnwys straeon, mae'n rhaid i ni feddwl fel newyddiadurwyr a holi'r cwestiwn 'beth mae hynny'n ei olygu? Ydi hyn yn beth da neu ddrwg? Ydi hon yn stori dda neu'n stori ddrwg?'*

### 3.2.2 Awgrymiadau am welliannau

Yng ngoleuni'r adborth a ddaeth i law am y sleidiau, bu'r defnyddwyr yn awgrymu gwelliannau gyda'r nod o ailfeddwl am bwrpas y dull hwn o ddosbarthu gwybodaeth. Yn benodol, awgrymwyd y dylid:

- Ad-drefnu cynnwys y sleidiau i adrodd stori, o bosib ar gyfer pob pwnc yn unigol;
- Efallai cyflwyno'r data dan amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn creu stori; gellid defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel prif thema er mwyn cysylltu mewn ffordd well gyda'r rhanddeiliaid / defnyddwyr a rhoi gwybod iddynt lle'r ydym ni arni ar '*y daith'*;

- Ychwanegu sleid rhyngweithiol 'cynnwys / cipolwg' â dolenni at sleidiau eraill er mwyn i'r defnyddwyr fedru dewis pa rai sydd fwyaf o ddiddordeb iddynt eu darllen;
- Ystyried a fyddai tudalen unigol o ffeithluniau yn opsiwn gwell, mwy trawiadol.


## 3.3 Tablau a siartiau Excel o'r prif ganlyniadau

Roedd y llyfryn Excel o brif ganlyniadau a gyflwynwyd i'r ymatebwyr fel a ganlyn:


- cynnwys pedwar tab ('Chwilio am gwestiynau / Pori yn ôl pwnc', 'Canlyniadau', 'Gwybodaeth dechnegol' a 'Data');
- cwmpasu'r prif ganlyniadau ar gyfer dewis o bynciau a chwestiynau drwy ddefnyddio data Arolwg Cenedlaethol 2014-15;
- adrodd ar ganlyniadau yn ôl dewis o'r prif newidynnau;
- cyflwyno'r data fel tablau a siartiau;
- cwmpasu pob cwestiwn yn yr arolwg, gan gynnwys y rhai nad yw'r data ar gael ar eu cyfer eto;
- darparu dolenni at yr holiadur PDF a manylion cyswllt tîm yr Arolwg Cenedlaethol.

Ceir enghreifftiau isod o'r tabiau yr oedd gofyn i'r ymatebwyr edrych arnynt:

*Tab 1a: Chwilio am gwestiynau (Saesneg yn unig)*



## *Tab 1b: Pori yn ôl pwnc (Saesneg yn unig)*




## *Tab 1c: Chwilio am gwestiynau / pynciau gan ddefnyddio allweddair (Saesneg yn unig)*





## *Tab 2a: Canlyniadau: 'Dangos fel siart'* (Saesneg yn unig)*




* data 2014-15

*Tab 2b: Canlyniadau: 'Dangos fel tabl' *(Saesneg yn unig)*


Choose results breakdown:

- Satisfaction with arts event
- Attended arts events in last year
- View on the state of education in Wales
- How likely will start own business
- Would like to start own business
- Whether keeping up with bills
- Whether have used debt advice services in last year
- Whether climate change will be more of a problem in 25 years' time
- Whether the gap between righ and poor will be larger in 25 years' time

Chart: show/hide numbers, error bars

Search for more results

Found a problem or can't see what you are looking for? Email us!

Show as chart

Please think about the last time you went to an event of this type in Wales. Overall, how satisfied or dissatisfied were you?

| Gender | Male | | | Female | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | Lower CI | Upper CI | % | Lower CI | Upper CI |
| Very satisfied | 68 | 66 | 71 | 79 | 77 | 80 |
| Fairly satisfied | 28 | 26 | 30 | 19 | 17 | 20 |
| Neither satisfied nor dissati | 3 | 2 | 3 | 1 | 1 | 2 |
| Fairly dissatisfied | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Very dissatisfied | - | | | - | | |

Sample size: 7,900

| Colour | Margin of error: |
|---|---|
| | Precise (under +/- 3%) |
| | Fairly precise (between +/- 3% and +/- 4%) |
| | Less precise (over +/- 4%) |

* data 2014-15

### 3.3.1 Barn gyffredinol am dablau a siartiau o'r prif ganlyniadau

Roedd defnyddwyr yr Arolwg wedi'u plesio gan y ffordd newydd o gyflwyno'r prif ganlyniadau ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol yn Excel. Roeddent yn hoffi'r syniad o chwilio am bynciau a chwestiynau o ddiddordeb iddynt, gan gael data mewn tablau neu siartiau, a medru edrych yn fanylach ar y canlyniadau yn ôl prif newidynnau gan ddibynnu pa fath o wybodaeth oedd ganddynt dan sylw:

- *'Mae'n gymysgedd dda o siartiau a thablau'*
- *'Mae'n dda medru chwilio am y data sydd o ddiddordeb pennaf i mi, ac i gael yr wybodaeth sydd ei hangen mor gyflym'*

Gwelwyd Excel fel adnodd gweddol arbenigol, na fyddai'n cael ei ddefnyddio cymaint â bwletin byr gan ddefnyddwyr annhechnegol; dywedodd defnyddwyr ag ychydig iawn o gefndir ymchwil / ystadegol, os o gwbl, nad ydynt fel rheol yn agor ffeiliau Excel, ond ar ôl agor a gweld y llyfryn Excel hwn eu bod wedi sylweddoli ei fod yn ddigon hawdd ei ddefnyddio. Y teimlad cyffredinol oedd bod y llyfryn Excel hwn yn cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd hwylus i'r defnyddiwr a'i fod yn fwy defnyddiol a rhyngweithiol na thablau/siartiau eraill a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ar bynciau eraill. Roeddent o'r farn y

byddent yn fwy tebygol o'i ddefnyddio gan ei fod yn hwylus ac mai dim ond ychydig o wybodaeth sylfaenol am Excel sydd ei angen:

- *'O, mae'n llawer haws ei ddefnyddio nag o'n i'n disgwyl!'*
- *'Fydden i byth yn defnyddio canlyniadau yn Excel, rwy'n gwybod ei fod tu hwnt i fi, a dwi'n cael fy nhemtio i ofyn i rywun arall edrych arno drosta i...ond mae hwn yn edrych yn wahanol, a dwi'n meddwl galla i ei ddefnyddio!'*
- *'Mae'n gweithio'n dda yn Excel hefyd!'*
- *'Mae'n atyniadol ac yn glir'*

Roedd y rhai a ymatebodd a oedd â chefndir ymchwil neu ystadegol yn arbennig o debygol o ddweud bod yr wybodaeth yn y llyfryn Excel yn weddol gynhwysfawr, a'u bod yn gwerthfawrogi bod modd ychwanegu gwybodaeth ychwanegol o ran ansawdd (fel cyfyngau hyder) i'r siartiau a'r tablau os oeddent am wneud hynny:

- *'Mae'n ddefnyddiol, galla i weld y cyfyngau hyder yn yr un tab os ydw i am wneud hynny - maen nhw'n werthfawr iawn ar gyfer fy ngwaith'*
- *‘Mae'n dda bod modd gweld a chuddio gwybodaeth ychwanegol - gallwch deilwra'r siartiau a'r tablau yn ôl eich anghenion'*

Fel nodweddion ychwanegol, ystyriwyd ei bod yn dda cael dolenni at y cwestiynau yn yr holiadur rhag ofn y byddai defnyddwyr am eu gweld yn eu cyd-destun, a medru cysylltu'n uniongyrchol gyda thîm yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer ceisiadau ad-hoc:

- *'Mae'n dda cael dolenni i weld yr holiadur gwreiddiol ac atgoffa'n hunan am y cwestiynau a gafodd eu holi ar gyfer bob pwnc'*
- *‘Mae'n ddefnyddiol cael dolen i gysylltu â'r tîm os oes angen rhagor o wybodaeth neu ddata ychwanegol'*

### 3.3.2 Awgrymiadau am welliannau

Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd edrych drwy'r llyfryn Excel ac awgrymu unrhyw newidiadau angenrheidiol yn eu barn nhw i wneud y ddogfen mor hawdd ei defnyddio ac mor hygyrch â phosib. Dyma'r prif awgrymiadau a gyflwynwyd ar gyfer pob tab o'r llyfryn Excel:


***Tab 'Chwilio am gwestiynau'***

- Cael cyfarwyddiadau bras ar sut i ddefnyddio'r daenlen er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod beth yw'r ffordd orau o'i defnyddio;
- Cael tab ar gyfer y cynnwys, gyda dolenni at y tabiau eraill yn y llyfryn Excel;
- Gwella'r 'blwch chwilio' (gweler *Tab 1c: Chwilio am gwestiynau / pynciau gan ddefnyddio allweddair*) drwy:
  - ddileu 'Nodi allweddair' a galluogi'r defnyddwyr i fewnbynnu'r geiriau ar unwaith;
  - datblygu'r offeryn chwilio er mwyn edrych am gwestiynau / pynciau mewn ffordd well (er enghraifft, dangoswyd canlyniadau ar gyfer 'rhyngrwyd' ond dim ar gyfer 'mynediad at y rhyngrwyd' neu 'defnyddio'r rhyngrwyd');
- Gosod cwestiynau mewn grwpiau clir (gweler *Tab 1a: Chwilio am gwestiynau)* er mwyn medru chwilio'n well am gwestiynau ac o bosib cael botymau wedi'u cysylltu â phob pwnc yn hytrach na dolenni;
- Gwella'r ffordd y mae'r cwestiynau'n cael eu harddangos (gweler *Tab 1a: Chwilio am gwestiynau)* drwy:
  - ddangos yn well pa gwestiynau sydd â data ar gael;
  - dileu'r cwestiynau lle nad oes data ar gael eto neu bennu pryd fydd y data ar gyfer y cwestiynau hyn yn dod ar gael;
- Gosod cod lliw ar y cwestiynau, fel a wnaed yn y bwletin byr, yn hytrach na defnyddio'r lliw du safonol;
- Gwneud y dolenni at y cwestiynau yn yr holiadur PDF ac enwau'r newidynnau yn fwy amlwg (*gweler enghraifft isod - Saesneg yn unig)* a gwella'r ffordd mae'r dolenni'n gweithio gan iddi gymryd tipyn o amser i'r rhai a ymatebodd agor y ddogfen ei hun:




*Tab 'Canlyniadau'*


- Ychwanegu'r pynciau / cwestiynau ar frig y tab 'Canlyniadau';
- Sicrhau bod labeli'r newidynnau yn fyr ac yn hawdd eu deall;
- Sicrhau bod y siartiau / tablau wedi'u fformatio mewn ffordd sy'n galluogi defnyddwyr i'w hargraffu'n rhwydd ar un dudalen;
- Ychwanegu mwy o ofod rhwng y cyfarwyddyd 'Dangos fel tabl/siart' a'r tabl/siart ei hun, er mwyn osgoi cael negeseuon am wallau (gweler *Tab 2a/b: Canlyniadau: 'Dangos fel siart' / Dangos fel tabl*');
- Ail-fformatio'r ffenestr 'Dewis manylion y canlyniadau' (*gweler enghraifft isod - Saesneg yn unig)* gan y teimlwyd bod y rhan hon o'r dudalen yn cymryd gormod o le (er enghraifft drwy gael cwymplen yn hytrach na gofod penodol ar ei gyfer) a disodli'r dolenni wrth ochr y gwymplen â botymau:




- Ailfeddwl sut i arddangos siartiau sy'n cynnwys rhestr hir o gategorïau i'w gwneud yn haws eu darllen (*gweler enghraifft isod - Saesneg yn unig):*



- Ailfeddwl sut mae labeli'n cael eu dangos yn yr allwedd ac ar echel X, oherwydd mewn rhai achosion mae labeli'n cael eu cynnwys yn y tabl ond nid ar echel X, ac fe allai hyn greu rhywfaint o ddryswch (*gweler enghraifft isod - Saesneg yn unig):*




* data 2014-15

- Cuddio'r data ar waelod y tab, gan nad yw wedi'i fformatio ac na fydd ei angen gan y defnyddwyr (*gweler enghraifft isod - Saesneg yn unig):*

| | Isle of Ang | Gwynedd | Conwy | Denbighsh | Flintshire | Wrexham | Powys | Ceredigior |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I'm fluent in Welsh | 67.23 | 72.99 | 43.72 | 36.63 | - | 28.77 | 31.77 | 60.79 |
| I can speak a fair amount of Welsh | 16.22 | 10.39 | - | 22.73 | - | - | 16.24 | 20.69 |
| I can only speak a little Welsh | 13.65 | 13.33 | 37.15 | 28.17 | 35.3 | 35.82 | 34.11 | 16.24 |
| Can say just a few words | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Isle of Ang | Gwynedd | Conwy | Denbighsh | Flintshire | Wrexham | Powys | Ceredigior |
| | % | % | % | % | % | % | % | % |
| I'm fluent in Welsh | 5.2 | 4.77 | 7.82 | 7.52 | - | 9.06 | 9.01 | 6.1 |
| I can speak a fair amount of Welsh | 4.02 | 3.4 | - | 6.62 | - | - | 6.3 | 5.49 |
| I can only speak a little Welsh | 3.78 | 3.66 | 7.75 | 6.73 | 10.13 | 9.44 | 10.08 | 4.44 |
| Can say just a few words | - | - | - | - | - | - | - | - |

* data 2014-15

### *Tab 'Gwybodaeth dechnegol'*

- Symud yr wybodaeth yn y tab hwn i'r tab 'Canlyniadau' er mwyn sicrhau bod unrhyw wybodaeth allweddol ar gael yn barod wrth ochr y canlyniadau.

### *Tab 'Data'*

- Cuddio'r tab hwn gan na fydd angen i'r defnyddwyr weld y data crai sy'n cael ei ddefnyddio i greu tablau a siartiau.

Ar ben hynny, awgrymwyd hyrwyddo'r daenlen Excel hon fel adnodd hawdd ei ddefnyddio i annog pobl i'w ddefnyddio, gan mai'r prif rwystr i'r defnyddwyr annhechnegol yw'r rhagdybiaeth bod ffeiliau Excel ar gyfer arbenigwyr yn unig.

## 4. Casgliadau a'r camau nesaf

Cadarnhaodd defnyddwyr yr arolwg bod cael amrywiol opsiynau dosbarthu yn ddefnyddiol i ddiwallu anghenion gwahanol ddefnyddwyr, gyda'r bwletin byr a'r siartiau / tablau Excel o'r prif ganlyniadau yn opsiynau a ffefrir ar gyfer y datganiad cyntaf.

Ar sail yr adborth a gasglwyd drwy gyfweliadau manwl gyda grŵp bach o ddefnyddwyr mewnol ac allanol, dros y misoedd nesaf bydd tîm yr Arolwg Cenedlaethol yn adolygu'r allbynnau drafft.

Bydd canlyniadau cyntaf yr Arolwg Cenedlaethol newydd, ar sail cyfweliadau a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau'r Arolwg Cenedlaethol ar y we (www.llyw.cymru/arolwgcenedlaethol) ym mis Mehefin 2017.

# <u>ATODIAD</u>: Canllaw ar gyfer y cyfweliadau manwl i brofi deunyddiau ffug Datganiad Cyntaf Arolwg Cenedlaethol 2016-17 *(Saesneg yn unig)*

## 1. Introduction

### 1. Introduce yourself

### 2. Explain reason for meeting

We will be publishing the next set of results from the National Survey in June and we would like to make them as easy-to-use and engaging as possible.

To help with this, we are gathering views from a small group of internal and external survey users on the mock-up material we have prepared for our first release. Your help will be very valuable in making the results accessible and useful, for you and for other people in Welsh Government and other public bodies.

Today we are testing the mock-up versions of the short bulletin, the slides of key results and the Excel tables/ charts of key results.

### 3. Reassure confidentiality

Your details will be kept confidentially within our team, and you will not be identified in any of our reports. When our work is complete, the details will be deleted.

### 4. Explain what you would like respondent to do

I will show you hard copies of the bulletin and slides and an electronic version of Excel file on laptop and ask you to provide your views on them.

### 5. Ask if they any questions before beginning, and check that they are happy to continue.

## 2. Probes for the short bulletin

Ask them to spend 5 minutes looking at it (without reading it in detail) and specify that dummy data has been used. Then…

- **Ask for general views on the bulletin:**
  - What do they like?
  - What don't they like so much?

- **Probe general comprehension:**
  - How clear or unclear is the document? Why?
  - How easy or difficult is to understand the key findings? Why?
  - Would they know how to look for additional information if needed?
  - Anything missing/ would like to see in the document?
  - Anything they think is in the document but won't be necessary?

- **Ask for comments on layout/ format:**
  - How easy or difficult is to navigate through the document?
  - How engaging is it?
  - Length of document
  - Number of sections/ Length of sections on key topics
  - Amount of text/ charts/ images
  - Use of bullet points
  - Would they be likely to read the document? Would they read the whole thing or just sections?
  - Would they look at any of the technical information (e.g. quality report, technical report, Key quality information section)
  - What could be done to make it more engaging?

- **Ask for their expectations:**
  - Is what they would expect to be published? If not, why?
  - How useful would this short bulletin be to them?

- **Anything else they would like to comment on?**

## 3. Probes for the slides of key results

Ask them to have a look at the slides and specify that dummy data has been used. Then…

- **Ask for general views on the slides:**
  - What do they like?
  - What don't they like so much?

- **Probe general comprehension:**
  - How clear or unclear is the document? Why?
  - How easy or difficult is to understand the key findings? Why?
  - Would they know how to look for additional information if needed?
  - Anything missing/ would like to see included in the slides?
  - Anything they think is in the slides but won't be necessary?

- **Ask for comments on layout/ format:**
  - How engaging is it?
  - Number of slides per topic
  - Amount of text/ charts/ images
  - Would they be likely to read the slides? Would they read the whole thing or just a few?
  - Would they look at any of the further information?
  - What could be done to make them more engaging?

- **Ask for their expectations:**
  - Is what they would expect us to publish? If not, why?
  - How useful would these slides be to them?

- **Anything else they would like to comment on?**

## 4. Probes for the Excel tables/ charts of key results

Ask them to navigate through the Excel file. Then…

- **Ask for general views on the Excel spreadsheet:**
  - What do they like?
  - What don't they like so much?

- **Probe general comprehension:**
  - How clear or unclear is the document? Why?
  - How easy or difficult is to understand the results? Why?
  - Would they know how to look for additional information if needed?
  - Anything missing/ would like to see included in the Excel file?
  - Anything they think is in the Excel file but won't be necessary?

- **Ask for comments on layout/ format:**
  - How easy or difficult is to navigate through the document?
  - How easy or difficult is to understand how to use the document?
  - How engaging is it?
  - Number of tabs
  - Amount of information per tab
  - How could it be made easier to use?

- **Ask for their expectations:**
  - Is what they would expect of a National Survey Excel spreadsheet? If not, why?
  - How useful would be this Excel file to them?

- **Anything else they would like to comment on?**

Finally…

- How do you usually use research material (e.g. bulletins, slides, Excel files)? Do you look at them on the screen or do you print them out?

## 5. End of interview

Thank them for their time and views. Explain provisional plan for first release:

- The plan for the first publication is to publish a 10/15 page headline short bulletin accompanied by slides at national level.
- All Future Generation indicators will be put onto StatsWales by local authority, gender and age.
- There will also be Excel tables of results on the Welsh Government website.
- Topic-specific bulletins will be published starting from July